Chwarae Teg®
Solutions | Atebion

Llwyddiant Busnes trwy Weithio'n Hyblyg

Diben

Mae hyblygrwydd yn ymwneud â sut, pryd a ble rydym yn gweithio er mwyn sicrhau'r canlyniadau busnes gorau posibl a chynorthwyo gweithwyr i gael cydbwysedd cadarnhaol rhwng gwaith a'u bywyd cartref. Mae gweld beth sy'n addas i'ch sefydliad chi a sut i ddatblygu strwythurau gwaith hyblyg effeithiol yn hanfodol ar gyfer cyflwyno trefniadau llwyddiannus. Bydd y gweithdy hwn yn eich cyflwyno i'r gwahanol fathau o weithio hyblyg ac yn eich galluogi i weld sut mae arferion gweithio hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn gallu dod â manteision pendant i'r busnes.

Sut fyddwch chi'n elwa

Byddwch yn dysgu sut i wella cynhyrchiant a pherfformiad trwy ddefnyddio strategaethau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae'r manteision yn cynnwys:

- Llai o absenoldeb, salwch a straen
- Gwasanaeth gwell i gwsmeriaid
- Gallu uniaethu'n well â chwsmeriaid o ganlyniad i weithlu mwy amrywiol
- Morâl yn well a mwy o deyrngarwch
- Dod yn gyflogwr o ddewis

Erbyn diwedd y cwrs byddwch yn gallu creu cynllun gweithredu i'ch sefydliad ac yn deall yn well beth sy'n berthnasol i'ch busnes chi.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o fanteision busnes gweithio'n hyblyg a sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Y prif rwystrau/bryderon/faterion sy'n gysylltiedig â gweithredu arferion gweithio'n hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Pwysigrwydd treialu mentrau gwahanol er mwyn diwallu anghenion gwasanaeth a staff

Hyd

1/2 dydd

Ffi

£185 + TAW y pen
Disgownt o 10% am ail gynrychiolydd o'r un sefydliad

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â atebion@chwaraeteg.com neu galwch 029 2047 8900 neu ewch i'r wefan http://www.cymraeg.chwaraeteg.com/atebion